Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL:
63/2020
DYDDIAD CYHOEDDI:
10/09/2020

# Diweddariad i'r Arolwg o Agweddau'r Cyhoedd ar Roi Organau: Ffigurau allweddol o Gamau 17, 18 ac 19

## Adroddiad Diweddaru

### Cefndir

Cafodd Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ar 10 Medi 2013. Cyflwynodd y Ddeddf system feddal o optio allan ar gyfer cydsynio i roi organau a meinweoedd pobl wedi marw yng Nghymru, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2015.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgyrch gyfathrebu barhaus i sicrhau bod aelodau'r cyhoedd yn cael gwybodaeth lawn am yr hyn y mae'r newidiadau hyn yn ei olygu a'r dewisiadau y gallant eu gwneud. Er mwyn monitro effeithiolrwydd yr ymgyrch a llywio ei datblygiad, mae angen gwybodaeth am ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o'r gyfraith rhoi organau, ac agweddau at y newidiadau deddfwriaethol yma yng Nghymru.

Er mwyn diwallu'r anghenion ymchwil hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu cwestiynau yn Arolwg Omnibws Cymru, a gynhaliwyd gan Beaufort Research Ltd. Rydym yn casglu data bob chwe mis rhwng Medi 2017 a Mawrth 2020, gan adeiladu ar y gwaith a wnaed fel rhan o'r gwerthusiad o Ddeddf Trawsblannu Dynol (Cymru), a chyhoeddir diweddariadau ar y data hyn.

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer cam 17 rhwng 25 Chwefror a 10 Mawrth 2019 (1,001 o ymatebwyr). Cynhaliwyd ambell gyfweliad ar ôl y dyddiadau hyn. Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer cam 18 rhwng 16 Medi a 15 Hydref 2019 (1,000 o ymatebwyr). Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer cam 19 rhwng 24 Chwefror a 15 Mawrth 2020 (713 o ymatebwyr)[1]. Mae'r arolwg wedi'i gynllunio i gynrychioli poblogaeth Cymru sy'n 16 oed a throsodd. Mae'r cwestiynau a ofynnir ym mhob un o'r camau wedi'u cynnwys yn Atodiad 2, 3 a 4. Mae manylion y dulliau a ddefnyddiwyd wedi'u cyhoeddi o'r blaen[2].

[1] Noder nad oedd modd i'r gwaith maes ar gyfer cam 19 gyrraedd y targed o 1,000 ar gyfer maint y sampl oherwydd pandemig y coronafeirws a'r mesurau cadw pellter cymdeithasol a roddwyd ar waith, a arweiniodd at atal yr holl waith maes wyneb yn wyneb.

[2] Agweddau'r cyhoedd at roi organau

## Canfyddiadau allweddol

### Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r system gyfredol o roi organau

- Gofynnwyd i ymatebwyr yn gyntaf, yn ddigymell, a oeddent yn ymwybodol o'r system gyfredol o roi organau. Yng nghamau 17 a 18, dywedodd tua wyth o bob deg (83 y cant) eu bod yn ymwybodol o'r system gyfredol. Dywedodd cyfran debyg yng ngham 19 eu bod yn ymwybodol ohoni (86 y cant). Mae hyn yn debyg i gamau 15 (Mawrth 2018) ac 16 (Medi 2018) lle'r oedd 82 y cant ac 86 y cant yn ymwybodol o'r system.

- Fel y mae tablau 1, 2 a 3 yn Atodiad 3 yn dangos, ym mhob un o'r camau hyn, roedd menywod a'r rhai sydd yng ngrwpiau cymdeithasol ABC1 yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn ymwybodol o'r system gyfredol. Roedd rhai rhwng 16-34 oed yn llai tebygol o ddweud eu bod nhw'n ymwybodol o'r system gyfredol.

- Yna gofynnwyd i'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r system gyfredol o roi organau esbonio, yn ddigymell, sut mae'r system yn gweithio. Llwyddodd tua wyth o bob deg o ymatebwyr a holwyd (81 y cant yng ngham 17 ac 80 y cant yng ngham 18) i amlinellu'r system yn gywir. Roedd hyn yn uwch nag yng ngham 16 (Medi 2018) lle'r oedd 75 y cant o'r ymatebwyr yn gywir. Yng ngham 19 roedd cyfran y rhai a eglurodd yn gywir sut mae'r system yn gweithio yn nes at y lefel hon, sef gostyngiad i tua thri o bob pedwar o bobl yn esbonio'n gywir (74 y cant). Fel y mae tablau 4, 5 a 6 yn dangos, roedd dealltwriaeth gyfartal ar y cyfan rhwng y rhywiau ym mhob un o'r camau (roedd gan 81 y cant o ddynion a menywod ddealltwriaeth gywir yng ngham 17, ac 81 y cant o ddynion a 79 y cant o fenywod yng ngham 18. Yng ngham 19, y lefelau oedd 73 y cant o ddynion a 74 y cant o fenywod). Ym mhob cam, roedd mwy o ddealltwriaeth ymhlith y rhai yng ngrŵp cymdeithasol ABC1 na'r rhai yn y grŵp C2DE. Yng ngham, nododd 17 ychydig yn fwy o'r ymatebwyr ieuengaf yn gywir sut mae'r system yn gweithio, ac yng ngham 19 y rhai yn y grŵp oedran 35-54 oedd fwyaf tebygol o nodi'n gywir sut roedd y system yn gweithio.

- Dangoswyd cerdyn a oedd yn disgrifio'r system gyfredol o roi organau i'r holl ymatebwyr, a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld neu glywed unrhyw beth am hynny o'r blaen. Mae tablau 7 a 9 yn dangos mai dim ond bron i bedwar o bob pump (77 ac 80 y cant o ymatebwyr yn y drefn honno) yng ngham 17 a 19 a nododd eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y system. Yng ngham 18 dywedodd ychydig llai o ymatebwyr eu bod wedi gweld neu glywed unrhyw beth am y system (71 y cant), fel y dangosir yn nhabl 8. Dywedodd ychydig mwy o fenywod na dynion eu bod wedi clywed am y system yn y ddau gam (75 y cant o ddynion, 78 y cant o fenywod a 69 y cant o ddynion, 73 y cant o fenywod yng nghamau 17 ac 18, yn y drefn honno). Parhaodd y patrwm hwn yng ngham 19 gydag 83 y cant o fenywod yn dweud eu bod wedi clywed am y system o gymharu â 77 y cant o ddynion. Yng ngham 17, dywedodd ychydig dros saith o bob deg (72 y cant) o'r rheini yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE eu bod wedi gweld neu wedi clywed rhywbeth am y system gyfredol o roi organau o gymharu ag ychydig dros wyth o bob deg (82 y cant) yng ngrwpiau cymdeithasol ABC1. Yng ngham 19, dywedodd ychydig dros saith o bob deg (83 y cant) o'r rheini yng ngrŵp cymdeithasol ABC1 eu bod wedi gweld neu wedi clywed rhywbeth am y system gyfredol o roi organau o gymharu ag ychydig dros dri

chwarter (77 y cant) yng yng ngrŵp cymdeithasol C2DE. Gwelwyd yr un patrwm yng ngham 18, er bod llai yn ymwybodol o'r system nag yng ngham 17. Yn yr holl gamau, yr ymatebwyr ieuengaf oedd leiaf tebygol o ddweud eu bod wedi gweld neu glywed rhywbeth am y system (73 a 63 y cant o bobl ifanc 16-34 oed yng nghamau 17 ac 18, yn y drefn honno, o gymharu â 75 a 72 y cant o bobl 35-54 oed ac 81 a 76 y cant o'r rhai 55 oed a hŷn). Yng ngham 19, cafwyd ffigurau tebyg gyda 73% o bobl ifanc 16-34 oed wedi gweld neu glywed rhywbeth o gymharu ag 82 y cant o bobl 35-54 oed ac 84 y cant o'r rhai dros 55 oed.

**Cefnogaeth ar gyfer cydsyniad tybiedig**

- Yn y tri cham, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau roedden nhw'n cytuno, os bydd unigolyn yn dewis peidio â chofrestru penderfyniad, y dylid trin hyn fel penderfyniad i fod yn rhoddwr ac annog teuluoedd i'w dderbyn. Ym mhob cam, roedd tua thri chwarter yr ymatebwyr (73 y cant yng ngham 17 a 19, 75 y cant yng ngham 18) yn cytuno â'r datganiad hwn, gyda thraean yn cytuno'n gryf (33 y cant yn yng nghamau 17 ac 18 a 31 y cant yng ngham 19). Mae cyfran yr ymatebwyr sy'n cytuno â'r datganiad hwn wedi amrywio rhwng dau draean a thri chwarter ers inni ofyn y cwestiwn hwn am y tro cyntaf yng ngham 11 (Mawrth 2016) ac mae wedi bod yn gymharol sefydlog yn ystod y camau diweddar, gyda 75 y cant yn cytuno ar gam 16 a 73 y cant yn cytuno yng ngham 15.

- Mae tablau 10, 11 a 12 yn dangos bod y cyfrannau a oedd yn cytuno yn debyg ar draws y rhywiau ym mhob cam. Roedd tua wyth o bob deg o ymatebwyr (81 y cant) o grwpiau cymdeithasol ABC1 yn cytuno o gymharu â llai na saith o bob deg (67 y cant) yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE yng ngham 18. Yng ngham 17 roedd lefelau'r rhai a oedd yn cytuno o grwpiau cymdeithasol ABC1 ond ychydig yn uwch na'r rhai o C2DE (75 y cant a 71 y cant, yn y drefn honno) a gwelwyd patrwm tebyg yng ngham 19 (76 y cant a 69 y cant yn y drefn honno) a gwelwyd patrwm tebyg yng ngham 19 (76 y cant a 69 y cant yn y drefn honno). Roedd cytundeb â'r datganiad ar ei uchaf ymysg y rhai dros 55 oed yng ngham 18 gyda bron i wyth o bob deg yn cytuno (79 y cant). Yng ngham 17, roedd llai o gytundeb ymhlith y grŵp oedran hwn, sef ychydig dros saith o bob deg (72 y cant). O ran y grwpiau oedran 16-34 a 35-54, roedd cytundeb tebyg ar draws grwpiau oedran a chamau 17,18 ac 19 yr arolwg (74 a 72 y cant o'r rhai 16-34 oed a 72 a 73 y cant o'r rhai 35-54 oed yng nghamau 17 ac 18, yn y drefn honno, gyda 71 y cant o'r rhai 6-24 oed a 70 y cant o'r rhai 35-54 oed yng ngham 19).

**Ymwybyddiaeth o hysbysebion teledu**

- Yng nghamau 17 ac 19, aseswyd ymwybyddiaeth o'r ymgyrch hysbysebion teledu a radio. Yng ngham 17, dangoswyd pob un o'r tair hysbyseb deledu i unigolion a gofynnwyd a oeddent wedi eu gweld neu eu clywed o'r blaen. Yng ngham 19, chwaraewyd hysbyseb deledu a hysbyseb radio i 19 o ymatebwyr a gofynnwyd iddynt a oeddent wedi'u gweld neu eu clywed o'r blaen. Fel y gwelir yn nhabl 13, roedd bron i ddwy ran o dair o'r ymatebwyr (64 y cant) wedi gweld un o'r hysbysebion a ddangoswyd yng ngham 17. Roedd ychydig dros hanner (51 a 53 y cant, yn y drefn honno) wedi gweld hysbysebion teledu 'Bethan' a 'Dom' gydag ychydig dros draean (35 y cant o'r ymatebwyr) wedi gweld hysbyseb 'Manon'.  Roedd dynion yn llai

tebygol o nodi eu bod wedi gweld unrhyw rai o'r hysbysebion (41 y cant heb weld unrhyw hysbyseb o gymharu â 31 y cant o fenywod). Roedd y rhai yng ngrwpiau cymdeithasol ABC1 ychydig yn llai tebygol o ddweud eu bod yn ymwybodol o unrhyw un o'r hysbysebion (gyda 39 y cant o'r rhai yng ngrwpiau cymdeithasol ABC1 ddim yn ymwybodol o hysbyseb o gymharu â 33 y cant o'r ymatebwyr yn C2DE). O ran oedran, roedd ymwybyddiaeth gyfartal ar draws grwpiau oedran, gyda 36 y cant o'r rhai 16-34 oed, 35-54 oed a'r grŵp oedran 55+ yn nodi nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw un o'r hysbysebion.

- Yn ngham19, pan ofynnwyd iddynt a oeddent wedi gweld yr hysbyseb deledu, dywedodd tua thri o bob deg (29 y cant) eu bod wedi clywed yr hysbyseb radio. O ran yr hysbyseb deledu roedd menywod ychydig yn fwy tebygol na dynion o'i gweld (31 y cant o fenywod o gymharu â 26 y cant o ddynion) tra bod cyfran uwch o'r rhai yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE wedi'i gweld o gymharu ag ABC1 (33 y cant a 25 y cant yn y drefn honno). Y rhai dros 55 oed oedd y grŵp oedran mwyaf tebygol o fod wedi gweld yr hysbyseb deledu gyda thua dau o bob pump (38 y cant) yn y grŵp oedran hwn yn dweud eu bod wedi'i weld o gymharu â chwarter y rhai rhwng 16-34 a 35-54 oed (23 y cant a 24 y cant yn y drefn honno). Pan chwaraewyd yr hysbyseb, roedd menywod unwaith eto ychydig yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod wedi'i chlywed o'r blaen gydag ychydig dros dair o bob ugain o fenywod wedi'i glywed (17 y cant) o gymharu ag un o bob deg o ddynion (11 y cant). Roedd y rhai yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE hefyd yn fwy tebygol o fod wedi'i chlywed (16 y cant o'r rhai yn y grŵp cymdeithasol hwn o gymharu ag 11 y cant o'r rhai yn ABC1). Roedd yr adnabyddiaeth yn debyg ar draws oedrannau gyda thua un o bob deg wedi clywed yr hysbyseb radio ym mhob grŵp oedran (13 y cant o'r rhai rhwng 35-54 oed a thros 55 oed a 15 y cant o'r rhai rhwng 16 a 34 oed).

- Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr, yn ddigymell, beth oedd prif negeseuon yr hysbysebion, yn eu barn nhw. O ran y cwestiynau a ofynnwyd am y tair hysbyseb deledu yng ngham 17, gwelir yn nhabl 15 mai'r ymateb mwyaf poblogaidd oedd bod yr hysbysebion yn annog pobl i siarad am roi organau neu eu penderfyniad gyda theulu, gyda 35 y cant o'r rhai a holwyd yn dweud mai dyma oedd un o'r prif negeseuon. Yr ail ateb mwyaf poblogaidd oedd bod yr hysbysebion yn ceisio annog pobl i wneud penderfyniad, meddwl am eu dewisiadau, neu esbonio eu dymuniadau'n glir, gyda thua chwarter yr ymatebwyr (24 y cant) yn dweud hyn. Roedd ychydig llai yn meddwl mai'r neges oedd siarad am roi organau neu geisio annog pobl i roi organau (15 y cant a 10 y cant, yn y drefn honno). Dim ond 6 y cant oedd naill ai ddim yn gwybod neu'n methu â dweud beth oedd neges yr hysbyseb.

- Gofynnwyd i'r holl ymatebwyr, yn ddigymell, beth oedd prif negeseuon yr oedd yr hysbysebion teledu a radio a chwaraewyd yng ngham 19 yn ceisio eu cyfleu, yn eu barn nhw. Yn yr un modd ag yng ngham 17, yr ymateb mwyaf poblogaidd oedd bod yr hysbysebion yn annog pobl i siarad am roi organau neu eu penderfyniad gyda'u teulu, gyda thri o bob deg (30 y cant) o'r rhai y gofynnwyd iddynt yn dweud hyn. Yr ail ymateb mwyaf poblogaidd eto oedd eu bod yn annog pobl i wneud penderfyniad, gwneud eu dymuniadau'n glir neu feddwl am eu dymuniadau, gydag un o bob pump (19 y cant) o ymatebwyr yn dweud hyn. Roedd lefel debyg i'r hyn a welwyd yng

ngham 17 o'r farn eu bod yn annog pobl i roi organau (17 y cant) ac i siarad am roi organau (6 y cant). Roedd mwy o bobl yng ngham 19 yn dweud nad oeddent yn gwybod beth oedd y neges yr oedd yr hysbysebion yn ceisio’i chyfleu, o gymharu â cham 17 (15 y cant o'r rhai yng ngham 19 o gymharu â 6 y cant yng ngham 17).

**Trafod dymuniadau gydag aelod o'r teulu**

- Yng ngham 17, gofynnwyd cwestiwn i'r ymatebwyr a oedd wedi gweld un neu ragor o'r hysbysebion teledu, sef ‘A ydych chi erioed wedi trafod eich dymuniadau o ran rhoi organau ar ôl i chi farw gydag aelod o'r teulu ers gweld/clywed yr hysbyseb?’. Dywedodd bron i ddwy ran o bump (38 y cant) o'r ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed yr hysbyseb eu bod wedi trafod eu dymuniadau gyda'u teulu. Dywedodd un o bob pump (20 y cant) eu bod eisoes wedi trafod eu dymuniadau gyda'u teulu cyn gweld yr hysbyseb (gweler tabl 17). Gofynnwyd yr un cwestiwn i ymatebwyr a oedd wedi gweld neu glywed y naill neu'r llall o'r hysbysebion teledu neu radio a ddangoswyd yng ngham 19. Mae Tabl 18 yn dangos bod ychydig llai o bobl wedi dweud eu bod wedi trafod eu dymuniadau gydag aelod o'r teulu ers gweld neu glywed yr hysbyseb nag yng ngham 17 gydag un o bob pump (22 y cant) yn dweud eu bod wedi gwneud hyn. Fodd bynnag, dywedodd cyfran ychydig yn uwch eu bod eisoes wedi trafod eu dymuniadau gyda'u teulu o'r blaen nag a adroddwyd yng ngham 17 gyda bron i dri o bob deg (28 y cant) wedi gwneud hyn.

- Mae tabl 17 yn dangos nad oedd bron i hanner yr ymatebwyr yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE wedi trafod eu dymuniadau gydag aelod o'r teulu ers gweld hysbyseb, o gymharu â thua thraean o'r rhai yng ngrwpiau cymdeithasol ABC1 (49 y cant o'r rhai yn C2DE, 34 y cant yn ABC1). Pan ofynnwyd y cwestiwn hwn mewn perthynas â'r hysbysebion a chwaraewyd yng ngham 19 roedd llai o wahaniaeth rhwng grwpiau cymdeithasol, gyda thua hanner y rhai yn y ddau grŵp cymdeithasol yn dweud nad oeddent wedi trafod eu dymuniadau ar ôl gweld/clywed y naill neu'r llall o'r hysbysebion (47 y cant o'r rhai yn ABC1 a 52 y cant o'r rhai yn C2DE). Nid oedd gwahaniaeth rhwng y rhywiau wrth drafod dymuniadau gyda'r teulu ar ôl gweld/clywed unrhyw un o'r neu hysbysebion teledu a radio a chwaraewyd yng ngham 17 ac 19, ond yng ngham 15 roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o ddweud eu bod wedi trafod eu dymuniadau gydag aelod o'r teulu. O ran yr hysbysebion teledu a ddangoswyd yng ngham 17, y rhai yn y grŵp oedran 16-34 oedd y lleiaf tebygol o fod wedi trafod eu dymuniadau ar ôl hysbyseb deledu, a phobl 34-54 oed oedd y rhai mwyaf tebygol (roedd 33 y cant o bobl 16-34 oed wedi trafod eu dymuniadau o gymharu â 45 y cant o bobl 35-54 oed a 36 y cant o’r rhai dros 55 oed). Yng ngham 19, y rhai yn y grŵp oedran dros 55 oed oedd y lleiaf tebygol o fod wedi trafod eu dymuniadau gydag aelod o'r teulu ar ôl gweld/clywed naill ai'r hysbyseb deledu neu radio o gymharu â'r rhai yn y grŵp oedran 16-34 oed a’r grŵp oedran 35-54 oed (16 y cant o'r rhai 55 oed a hŷn o gymharu â 27 y cant a 29 y cant o'r rhai 16-34 oed a 35-54 oed yn y drefn honno).

- Yng ngham 18, ni ddangoswyd yr hysbysebion teledu na radio i'r ymatebwyr na'u holi amdanynt. Yn lle hynny gofynnwyd iddynt a oeddent erioed wedi trafod eu dymuniadau am roi organau ar ôl marw gydag aelod o'r teulu (gweler tabl 19).

Dywedodd dros hanner (54 y cant) yr ymatebwyr eu bod wedi trafod eu dymuniadau gyda'u teulu. Mae'n debyg i'r ffigur o 56 y cant a gofnodwyd yng ngham 16.

- Dengys tabl 19 fod dynion yn fwy tebygol o ddweud nad oeddent wedi trafod eu dymuniadau (48 y cant, o gymharu â 41 y cant o fenywod). Dywedodd ychydig dros hanner (53 y cant) yr ymatebwyr yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE nad oeddent wedi trafod eu dymuniadau o ran rhoi organau gyda'u teulu, o gymharu ag ychydig dros draean (36 y cant) yng ngrwpiau cymdeithasol ABC1. Dywedodd tair rhan o bump o'r rhai 35-54 oed (60 y cant) eu bod wedi trafod eu dymuniadau gyda'u teulu, o gymharu â hanner y rhai 16-34 oed (50 y cant) ac ychydig dros hanner y rhai dros 55 oed (53 y cant).

**Camau gweithredu a gymerwyd ers cyflwyno'r system newydd o roi organau**

- Yng ngham 18, gofynnwyd i'r ymatebwyr beth roeddent wedi'i wneud ers cyflwyno'r system newydd o roi organau ar 1 Rhagfyr 2015 (gweler tabl 13). Dywedodd un o bob pump o'r ymatebwyr (20 y cant) eu bod wedi cofrestru i optio i mewn, ac ychydig dros un o bob ugain ymatebwr eu bod wedi cofrestru i optio allan (6 y cant). Dywedodd ychydig o dan hanner (46 y cant) nad oeddent wedi gwneud unrhyw beth gan eu bod yn hapus gyda'r system cydsyniad tybiedig ac roedd ychydig dros chwarter naill ai heb feddwl amdano eto, neu'n dal i ystyried eu hopsiynau (19 y cant a 7 y cant, yn y drefn honno).

- Mae tabl 20 yn dangos bod menywod ychydig yn fwy tebygol o fod wedi optio i mewn na dynion (22 y cant o fenywod o gymharu â 18 y cant o ddynion) gyda lefelau tebyg o ddynion a menywod yn dweud eu bod yn hapus i gydsyniad tybiedig fod ar waith (45 y cant o ddynion o gymharu â 46 y cant o fenywod). Nododd bron i chwarter (24 y cant) y rhai yng ngrwpiau cymdeithasol ABC1 eu bod wedi optio i mewn ers cyflwyno'r system newydd o gymharu ag ychydig o dan un o bob pump o'r rheini yng ngrwpiau cymdeithasol C2DE (16 y cant). Roedd ymatebwyr o grwpiau cymdeithasol ABC1 hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn fodlon i ganiatâd tybiedig gael ei ddefnyddio (50 y cant o'r rheini yng ngrwpiau cymdeithasol ABC1 o gymharu â 40 y cant yn C2DE). Dywedodd tua thraean yr ymatebwyr C2DE eu bod naill ai'n dal i ystyried eu hopsiynau (9 y cant) neu heb feddwl amdanynt eto (26 y cant), o gymharu â thua un rhan o bump o'r rheini yng ngrwpiau ABC1 (gyda 6 y cant yn dweud eu bod yn dal i ystyried eu hopsiynau a 13 y cant heb feddwl amdanynt eto).

- Nodwyd gwahaniaethau yn ôl grŵp oedran hefyd. Dywedodd tua chwarter y rhai 35-54 oed eu bod wedi cofrestru i optio i mewn, o gymharu â chanrannau is ar gyfer y grwpiau oedran 16-34 a 55+ (22 y cant a 16 y cant, yn y drefn honno). Pobl 55+ oed oedd fwyaf tebygol o fod wedi optio allan ers cyflwyno'r system newydd, gyda 10 y cant o'r grŵp oedran hwn yn dweud eu bod wedi optio allan, o gymharu â 4 y cant o'r rhai rhwng 16-34 a 3 y cant o'r rhai 35-54 oed. Dywedodd tua hanner y rhai rhwng 35-54 a 55+ oed nad oeddent wedi gwneud unrhyw beth, gan eu bod yn fodlon i gydsyniad tybiedig fod yn gymwys, gydag ychydig dros draean o'r rhai 16-34 oed (36 y cant) yn dweud eu bod yn teimlo fel hyn. Pobl ifanc 16-34 oed oedd y grŵp oedran mwyaf tebygol o beidio â gwneud dim am eu bod naill ai'n dal i ystyried eu hopsiynau neu heb feddwl amdanynt eto.

- Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddywedodd eu bod naill ai wedi cofrestru i optio i mewn, optio allan neu heb wneud dim gan eu bod yn fodlon gyda'r cydsyniad tybiedig, a oeddent wedi trafod eu penderfyniad gydag aelod o'r teulu. Roedd tua dwy ran o dair wedi trafod y penderfyniad (67 y cant). Dengys tabl 21 fod ychydig mwy o fenywod na dynion wedi trafod eu penderfyniad (69 y cant o fenywod o gymharu â 65 y cant o ddynion). Dywedodd ychydig o dan dri chwarter y rhai o grwpiau cymdeithasol ABC1 (71 y cant) eu bod wedi trafod eu penderfyniad, o'i gymharu â dwy ran o dair mewn grwpiau cymdeithasol C2DE (63 y cant). Ymatebwyr 35-54 oed oedd fwyaf tebygol o fod wedi trafod eu penderfyniad gydag aelod o'r teulu (73 y cant, o gymharu â 66 y cant o bobl 16-34 oed a 64 y cant o'r rhai 55+ oed).

**ATODIAD 1**

**Tabl 1: A ydych chi'n ymwybodol o'r system gyfredol o roi organau?: Cam 17**

| | | Rhywedd | | Grŵp Cymdeithasol | | | | | | Oedran | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Dynion | Menywod | AB | C1 | C2 | DE | ABC1 | C2DE | 16-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail | | | | | | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 1001 | 438 | 563 | 197 | 289 | 207 | 305 | 486 | 512 | 256 | 265 | 480 |
| Wedi'i phwysoli | 1001 | 487 | 514 | 196 | 289 | 206 | 307 | 485 | 513 | 293 | 327 | 381 |
| Ydw | 835<br>83% | 390<br>80% | 445<br>86% | 186<br>95% | 249<br>86% | 167<br>81% | 231<br>75% | 475<br>93% | 398<br>78% | 220<br>75% | 278<br>85% | 336<br>88% |
| Nac ydw | 152<br>15% | 87<br>18% | 66<br>13% | 9<br>5% | 37<br>13% | 36<br>18% | 70<br>23% | 31<br>6% | 106<br>21% | 69<br>23% | 46<br>14% | 38<br>10% |
| Ddim yn gwybod | 14<br>1% | 10<br>2% | 4<br>1% | 1<br>1% | 3<br>2% | 3<br>2% | 6<br>2% | 3<br>1% | 9<br>2% | 5<br>2% | 3<br>1% | 7<br>2% |

Sail: Pob ymatebydd

**Tabl 2: A ydych chi'n ymwybodol o'r system gyfredol o roi organau?: Cam 18**

| | Cyfanswm | Rhywedd | | Grŵp Cymdeithasol | | | | | | Oedran | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dynion | Menywod | AB | C1 | C2 | DE | ABC1 | C2DE | 16-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail | | | | | | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 1000 | 442 | 558 | 197 | 333 | 184 | 278 | 530 | 462 | 310 | 279 | 411 |
| Wedi'i phwysoli | 1000 | 486 | 514 | 201 | 333 | 183 | 273 | 535 | 456 | 293 | 326 | 381 |
| Ydw | 835<br>83% | 399<br>82% | 436<br>85% | 183<br>91% | 288<br>86% | 153<br>83% | 205<br>75% | 471<br>88% | 357<br>78% | 221<br>76% | 279<br>85% | 334<br>88% |
| Nac ydw | 138<br>14% | 71<br>15% | 66<br>13% | 15<br>8% | 41<br>12% | 26<br>14% | 53<br>19% | 56<br>10% | 79<br>17% | 60<br>21% | 38<br>12% | 39<br>10% |
| Ddim yn gwybod | 24<br>2% | 13<br>3% | 11<br>2% | 3<br>1% | 5<br>1% | 3<br>1% | 13<br>5% | 8<br>1% | 16<br>4% | 10<br>3% | 7<br>2% | 7<br>2% |

Sail: Pob ymatebydd

**Tabl 3: A ydych chi'n ymwybodol o'r system gyfredol o roi organau?: Cam 19**

| | Cyfanswm | Rhywedd | | Grŵp Cymdeithasol | | | | | | Oedran | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Dynion | Menywod | AB | C1 | C2 | DE | ABC1 | C2DE | 16-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail | | | | | | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 713 | 327 | 386 | 149 | 225 | 158 | 178 | 374 | 336 | 200 | 191 | 322 |
| Wedi'i phwysoli | 713 | 347 | 366 | 145 | 222 | 162 | 180 | 367 | 343 | 209 | 233 | 271 |
| Ydw | 610 | 287 | 323 | 134 | 187 | 140 | 146 | 321 | 286 | 168 | 199 | 243 |
| | 86% | 83% | 88% | 92% | 84% | 86% | 81% | 88% | 83% | 81% | 85% | 89% |
| Nac ydw | 92 | 56 | 36 | 11 | 32 | 20 | 29 | 43 | 48 | 38 | 31 | 24 |
| | 13% | 16% | 10% | 8% | 14% | 12% | 16% | 12% | 14% | 18% | 13% | 9% |
| Ddim yn gwybod | 11 | 3 | 8 | - | 3 | 3 | 6 | 3 | 8 | 3 | 3 | 5 |
| | 2% | 1% | 2% | - | 1% | 2% | 3% | 1% | 2% | 1% | 1% | 2% |

Sail: Pob ymatebydd

**Tabl 4: Allwch chi ddweud wrtha i sut mae'r system yn gweithio? (Digymell): Cam 17**

| | | Rhywedd | | Grŵp Cymdeithasol | | | | | | Oedran | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Dynion | Menywod | AB | C1 | C2 | DE | ABC1 | C2DE | 16-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail | | | | | | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 843 | 355 | 488 | 187 | 254 | 166 | 234 | 441 | 400 | 191 | 226 | 426 |
| Wedi'i phwysoli | 835 | 390 | 445 | 186 | 249 | 167 | 231 | 435 | 398 | 220 | 278 | 336 |
| CYFFREDINOL 1, 2 neu 3 | 677<br>81% | 316<br>81% | 362<br>81% | 159<br>81% | 206<br>83% | 143<br>86% | 169<br>73% | 365<br>84% | 312<br>78% | 187<br>85% | 228<br>82% | 263<br>78% |
| 1. System optio allan/Bydd angen optio allan | 535<br>64% | 245<br>63% | 289<br>65% | 125<br>67% | 167<br>67% | 107<br>64% | 136<br>59% | 292<br>67% | 242<br>61% | 146<br>67% | 194<br>70% | 195<br>58% |
| 2. Cydsyniad tybiedig | 266<br>32% | 125<br>32% | 141<br>32% | 71<br>38% | 76<br>31% | 60<br>36% | 59<br>25% | 147<br>34% | 119<br>30% | 75<br>34% | 82<br>29% | 110<br>33% |
| 3. Rhaid optio i mewn neu optio allan \ cofrestru'r naill ffordd neu'r llall (neu wneud dim) | 41<br>5% | 19<br>5% | 22<br>5% | 7<br>4% | 9<br>4% | 12<br>7% | 12<br>5% | 16<br>4% | 25<br>6% | 19<br>9% | 10<br>4% | 11<br>3% |
| Bydd y teulu'n penderfynu | 27<br>3% | 14<br>4% | 13<br>3% | 4<br>2% | 9<br>4% | 9<br>5% | 5<br>2% | 14<br>3% | 14<br>3% | 5<br>2% | 9<br>3% | 13<br>4% |
| System optio i mewn | 25<br>3% | 10<br>3% | 15<br>3% | 7<br>4% | 4<br>2% | 4<br>2% | 11<br>5% | 11<br>3% | 14<br>4% | 4<br>2% | 5<br>2% | 16<br>5% |
| Er gwell | 4<br>1% | 2<br>1% | 2<br>0% | 2<br>1% | 2<br>1% | -<br>- | -<br>- | 4<br>1% | -<br>- | -<br>- | 1<br>0% | 3<br>1% |
| Pob un arall | 54<br>7% | 25<br>6% | 30<br>7% | 10<br>5% | 14<br>6% | 11<br>6% | 18<br>8% | 24<br>6% | 29<br>7% | 9<br>4% | 21<br>7% | 25<br>7% |
| Ddim yn gwybod | 51<br>6% | 27<br>7% | 24<br>5% | 8<br>4% | 13<br>5% | 8<br>5% | 23<br>10% | 21<br>5% | 30<br>8% | 15<br>7% | 16<br>6% | 20<br>6% |

Sail: Ymatebwyr sy'n ymwybodol o'r system gyfredol

**Tabl 5: Allwch chi ddweud wrtha i sut mae'r system yn gweithio? (Digymell): Cam 18**

| | | Rhywedd | | Grŵp Cymdeithasol | | | | | | Oedran | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Dynion | Menywod | AB | C1 | C2 | DE | ABC1 | C2DE | 16-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail | | | | | | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 839 | 366 | 473 | 180 | 288 | 153 | 212 | 468 | 365 | 239 | 240 | 360 |
| Wedi’i phwysoli | 835 | 399 | 436 | 183 | 288 | 153 | 205 | 471 | 357 | 221 | 279 | 334 |
| CYFFREDINOL 1, 2 neu 3 | 669 | 325 | 344 | 157 | 230 | 125 | 152 | 387 | 277 | 178 | 226 | 265 |
| | 80% | 81% | 79% | 86% | 80% | 82% | 74% | 82% | 77% | 80% | 81% | 79% |
| 1. System optio allan / Bydd angen optio allan | 549 | 252 | 296 | 133 | 195 | 100 | 116 | 327 | 216 | 145 | 190 | 213 |
| | 66% | 63% | 68% | 72% | 68% | 65% | 57% | 69% | 60% | 66% | 68% | 64% |
| 2. Cydsyniad tybiedig | 147 | 89 | 58 | 37 | 48 | 28 | 34 | 86 | 61 | 38 | 45 | 64 |
| | 18% | 22% | 13% | 20% | 17% | 18% | 16% | 18% | 17% | 17% | 16% | 19% |
| System optio i mewn | 89 | 43 | 46 | 15 | 32 | 16 | 26 | 47 | 42 | 18 | 32 | 39 |
| | 11% | 11% | 10% | 8% | 11% | 10% | 13% | 10% | 12% | 8% | 12% | 12% |
| Bydd y teulu’n penderfynu | 31 | 13 | 18 | 11 | 11 | 5 | 4 | 22 | 9 | 5 | 10 | 16 |
| | 4% | 3% | 4% | 6% | 4% | 4% | 2% | 5% | 3% | 2% | 4% | 5% |
| 3. Rhaid optio i mewn neu optio allan \ cofrestru'r naill ffordd neu'r llall (neu wneud dim) | 27 | 14 | 13 | 3 | 8 | 8 | 9 | 10 | 17 | 8 | 8 | 12 |
| | 3% | 4% | 3% | 1% | 3% | 5% | 5% | 2% | 5% | 4% | 3% | 4% |
| Er gwell | | | | | | | | | | | | |
| | 9 | 4 | 5 | 1 | - | 1 | 7 | 1 | 8 | 2 | 2 | 4 |
| Pob un arall | 1% | 1% | 1% | 0% | - | 1% | 3% | 0% | 2% | 1% | 1% | 1% |
| | 21 | 11 | 10 | 6 | 6 | 3 | 6 | 12 | 9 | 6 | 9 | 6 |
| Ddim yn gwybod | 3% | 3% | 2% | 3% | 2% | 2% | 3% | 3% | 2% | 3% | 3% | 2% |
| | 38 | 13 | 25 | 5 | 15 | 5 | 12 | 20 | 18 | 16 | 10 | 13 |
| | 5% | 3% | 6% | 3% | 5% | 4% | 6% | 4% | 5% | 7% | 3% | 4% |

Sail: Ymatebwyr sy’n ymwybodol o’r system gyfredol

**Tabl 6: Allwch chi ddweud wrtha i sut mae'r system yn gweithio? (Digymell): Cam 19**

| | | Rhywedd | | Grŵp Cymdeithasol | | | | | | Oedran | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Dynion | Menywod | AB | C1 | C2 | DE | ABC1 | C2DE | 16-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail | | | | | | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 615 | 273 | 342 | 138 | 190 | 138 | 147 | 328 | 285 | 161 | 165 | 289 |
| Wedi'i phwysoli | 610 | 287 | 323 | 134 | 187 | 140 | 146 | 321 | 286 | 168 | 199 | 243 |
| CYFFREDINOL 1, 2 or 3 | 449 | 209 | 240 | 102 | 150 | 96 | 100 | 252 | 196 | 120 | 159 | 170 |
| | 74% | 73% | 74% | 76% | 80% | 68% | 68% | 78% | 68% | 71% | 80% | 70% |
| 1. System optio allan / Bydd angen optio allan | 380 | 174 | 206 | 90 | 128 | 83 | 77 | 218 | 160 | 106 | 134 | 140 |
| | 62% | 61% | 64% | 67% | 68% | 59% | 53% | 68% | 56% | 63% | 68% | 58% |
| 2. Cydsyniad tybiedig | 98 | 48 | 51 | 21 | 31 | 20 | 25 | 52 | 46 | 22 | 36 | 40 |
| | 16% | 17% | 16% | 16% | 17% | 15% | 17% | 16% | 16% | 13% | 18% | 17% |
| System optio i mewn | 52 | 25 | 28 | 10 | 21 | 9 | 12 | 31 | 21 | 22 | 10 | 20 |
| | 9% | 9% | 9% | 7% | 11% | 7% | 8% | 10% | 8% | 13% | 5% | 8% |
| Bydd y teulu'n penderfynu | 6 | 3 | 4 | 2 | 1 | 2 | 2 | 3 | 4 | - | 3 | 3 |
| | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | - | 2% | 1% |
| 3. Rhaid optio i mewn neu optio allan \ cofrestru'r naill ffordd neu'r llall (neu wneud dim) | 6 | 2 | 4 | 1 | 1 | 2 | 1 | 3 | 4 | 1 | 2 | 3 |
| | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 2% | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% |
| Er gwell | 2 | 1 | 1 | - | - | 1 | 1 | 1 | - | - | - | 2 |
| | 0% | 0% | 0% | - | - | 0% | 1% | 1% | - | - | - | 1% |
| Pob un arall | 52 | 26 | 26 | 10 | 10 | 17 | 15 | 20 | 32 | 18 | 15 | 18 |
| | 9% | 9% | 8% | 7% | 5% | 12% | 10% | 6% | 11% | 11% | 8% | 8% |
| Ddim yn gwybod | 31 | 18 | 14 | 6 | 4 | 11 | 10 | 9 | 21 | 7 | 8 | 17 |
| | 5% | 6% | 4% | 4% | 2% | 8% | 7% | 3% | 7% | 4% | 4% | 7% |

**Tabl 7: Cyn heddiw, ydych chi wedi clywed neu weld unrhyw beth am y newid hwn? [DANGOS DISGRIFIAD O'R SYSTEM GYFREDOL]: Cam 17**

| | | Rhywedd | | Grŵp Cymdeithasol | | | | | | Oedran | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Dynion | Menywod | AB | C1 | C2 | DE | ABC1 | C2DE | 16-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail | | | | | | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 1001 | 438 | 563 | 197 | 289 | 207 | 305 | 486 | 512 | 256 | 265 | 480 |
| Wedi'i phwysoli | 1001 | 487 | 514 | 196 | 289 | 206 | 307 | 485 | 513 | 293 | 327 | 381 |
| Ydw | 767<br>77% | 366<br>75% | 401<br>78% | 158<br>81% | 238<br>82% | 156<br>76% | 214<br>70% | 396<br>82% | 370<br>72% | 215<br>73% | 245<br>75% | 307<br>81% |
| Nac ydw | 228<br>23% | 116<br>24% | 112<br>22% | 38<br>19% | 51<br>18% | 47<br>23% | 91<br>29% | 89<br>18% | 137<br>27% | 77<br>26% | 79<br>24% | 71<br>19% |
| Ddim yn gwybod | 7<br>1% | 4<br>1% | 2<br>0% | -<br>- | 1<br>0% | 3<br>1% | 3<br>1% | 1<br>0% | 6<br>1% | 1<br>0% | 3<br>1% | 2<br>1% |

Sail: Pob ymatebydd

**Tabl 8: Cyn heddiw, ydych chi wedi clywed neu weld unrhyw beth am y newid hwn? [DANGOS DISGRIFIAD O'R SYSTEM GYFREDOL]: Cam 18**

| | | Rhywedd | | Grŵp Cymdeithasol | | | | | | Oedran | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Dynion | Menywod | AB | C1 | C2 | DE | ABC1 | C2DE | 16-34 | 35-54 | 55+ |
| Sail | | | | | | | | | | | | |
| Heb ei phwysoli | 1000 | 442 | 558 | 197 | 333 | 184 | 278 | 530 | 462 | 310 | 279 | 411 |
| Wedi'i phwysoli | 1000 | 486 | 514 | 201 | 333 | 183 | 273 | 535 | 456 | 293 | 326 | 381 |
| Ydw | 710 | 336 | 374 | 161 | 251 | 131 | 162 | 412 | 293 | 185 | 236 | 289 |
